

## **Cynigion y Cabinet ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol, 2004-05**

### **Datganiad i'r Cyfarfod Llawn**

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 31.10, mae'n ofynnol i'r Cabinet, cyn 31 Mawrth bob blwyddyn, gyflwyno gerbron y Cynulliad ei gynigion am ddeddfwriaeth sylfaenol yn Senedd y DU. Mae rheolau sefydlog 31.9 a 31.11 yn nodi ffurf y cynnig hwn a'r wybodaeth ategol sydd ei hangen. Mae'r ddogfen hon yn bodloni'r gofyniad olaf, a bwriedir cynnal dadl yn ei chylch yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Mawrth.

### **Y Cynigion**

#### **Mesur Comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn (Cymru)**

2. Byddai'r Mesur yn sefydlu Comisiynydd newydd, a fyddai'n diogelu ac yn hyrwyddo buddiannau pobl hŷn yng Nghymru. Byddai'r Comisiynydd yn gallu cynorthwyo pobl hŷn i sicrhau eu hawliau, gan roi'r grym iddynt gyflawni eu llawn botensial fel dinasyddion egniol. Byddai'r Cynulliad yn gallu cyfeirio materion i'w hystyried gan y Comisiynydd, ond ni fyddai'n gallu mynnu bod y Comisiynydd yn gweithredu ynghylch materion a gyfeiriwyd na chyfyngu ar ei allu/ei gallu i weithredu ar unrhyw faterion a gyfeiriwyd. Byddai gan y Comisiynydd amryfal ddyletswyddau, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth am faterion sy'n ymwneud â buddiannau pobl hŷn; cymryd unrhyw gamau y mae'n eu hystyried yn briodol er mwyn annog arferion da wrth ymdrin â phobl hŷn; yn ogystal ag adolygu'r sefyllfa'n gyson er mwyn gweld pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r gyfraith a'r arferion sy'n ymwneud â lles pobl hŷn, ac er mwyn g weld pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r gwasanaethau y mae'r awdurdodau perthnasol yn eu darparu ar gyfer pobl hŷn. Byddai'r Comisiynydd yn gallu ymdrin ag achosion unigol, ac o dan amgylchiadau penodol, yn gallu cynorthwyo unigolion i gymryd camau yn y llysoedd. Byddai pwerau cyffredinol y Comisiynydd yn cynnwys y rhyddid i ymgymryd ag ymchwil, cyhoeddi gwybodaeth a chanllawiau, cynnal ymchwiliadau a chyflwyno sylwadau i unrhyw gorff neu unigolyn am unrhyw fater sy'n ymwneud â buddiannau pobl hŷn.

O dan y Mesur, byddai'n ddyletswydd ar y Cynulliad ariannu'r Comisiynydd a'i swyddfa. Mae'n debyg y byddai angen £0.5m ar y dechrau er mwyn sefydlu'r swyddfa, ac oddeutu £1.25m y flwyddyn wedi hynny er mwyn ei rhedeg.

#### **Mesur Addysg (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru)**

3. O dan y Mesur, byddai pwerau i gyfyngu ar faint dosbarthiadau iau, a'r pwerau'n hynny'n debyg i'r rheini ar gyfer cyfyngu ar faint dosbarthiadau babanod. Byddai'n rhoi trefn ar seiliau deddfwriaethol y cynllun i ddarparu

brecwast mewn ysgolion cynradd ac ar y trefniadau ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad. Byddai'n galluogi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cenedlaethol ELWa i weithredu ar y cyd ac ar ran ei gilydd ac i secondio staff o'r naill sefydliad i'r llall. Byddai hefyd yn galluogi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i wella dulliau llywodraethu ym maes Addysg Uwch ac, os aiff materion i'r pen, i arfer swyddogaethau cynllunio er mwyn trefnu partneriaethau rhwng sefydliadau, a hynny yn unol â'r polisiau a amlinellwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn 'Y Wlad sy'n Dysgu' ac yn 'Anelu'n Uwch'. Byddai hefyd yn rhoi pwerau arolygu i Estyn ym maes hyfforddiant ar gyfer gwaith ieuengt a gwaith cymunedol o fewn y system Addysg Uwch, ac yn datrys anghysonderau statudol technegol mewn perthynas ag Estyn. Byddai'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau Addysg Bellach baratoi a chyhoeddi datganiadau blynnyddol am llywodraethu ac am reoli.

Dim ond ychydig o oblygiadau ariannol fyddai i'r Cynulliad. Yr un mwyaf arwyddocaol fyddai'r angen am gyllid i wneud dosbarthiadau iau yn llai (ond mae peth darpariaeth sylfaenol ar gyfer hyn eisoes). Ni ddylai'r darpariaethau ar gyfer CCAUC ac ELWa arwain at unrhyw oblygiadau sylweddol o ran cost. Byddai'n arwain at ychydig o gostau i Estyn o safbwyt arolygu hyfforddiant mewn gwaith ieuengt a chymunedol o fewn y system Addysg Uwch. Caiff costau'r cynllun brecwast mewn ysgolion cynradd eu hystyried yn llawn ar ôl i'r cynllun peilot ar gyfer 2004-05 gael ei werthuso.

### **Mesur (Tai) (Atal yr Hawl i Brynu) (Cymru)**

4. O dan y Mesur, byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn gallu atal yr Hawl i Brynu mewn ardaloedd dynodedig lle mae galw mawr am dai. O dan Ddeddf Tai 1985, caniateir i landlordiaid sy'n cael gwared ar eiddo mewn ardaloedd gwledig roi cyfamod arno er mwyn cyfyngu ar ryddid y prynwr (a'i olynwyr yn y teitl) i ailwerthu'r eiddo. Y llynedd, gwnaeth y Cynulliad Orchymyn a oedd yn ehangu'r rhestr o ardaloedd gwledig lle y caniateir cyfamod wrth ailwerthu. Mae'r Cynulliad wedi defnyddio pwerau eraill hefyd o dan is-ddeddfwriaeth i ostwng y disgownt uchaf a caniateir o dan yr Hawl i Brynu i £16,000 ym mhob rhan o Gymru. Er hynny, nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf i atal yr Hawl i Brynu mewn ardaloedd lle mae galw mawr am dai. O'r herwydd, mae angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn cyflwyno pŵer o'r math hwn.

Ni fyddai'r cynnig hwn yn arwain at unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol i'r Cynulliad. Lle y byddai'r Hawl i Brynu yn cael ei hatal, ni fyddai'r landlordiaid (awdurdodau lleol yn bennaf, ond hefyd rai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) yn cael unrhyw dderbyniadau drwy werthu eiddo, ond byddent yn dal i gael rhent. Felly, at ei gilydd, ni fyddent ar eu hennill nac ar eu colled.

### **Mesur Llywodraeth Leol (Gynghorau Tref a Chymuned) (Cymru)**

5. Byddai'r Mesur yn gweithredu argymhellion yr astudiaeth ymchwil ddiweddar i'r rolau a'r swyddogaethau hynny lle y byddai angen diwygio deddfwriaeth er mwyn i gynghorau tref a chymuned ymgymryd â hwy. Diben y Mesur fyddai galluogi cymghorau tref a chymuned yng Nghymru i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau a gweithredu'n fwy eang yn lleol, gan fod yn

fwy effeithiol o safbwyt eu rôl gynrychioliadol a chryfhau eu gallu i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill. Byddai hefyd yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i ariannu gweithgareddau cyngorau lleol yn uniongyrchol. Ymhlieth pethau eraill, byddai'r Mesur yn diddymu'r ddarpariaeth yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n golygu y gellir cael gwared ar gyngorau cymuned; ac yn rhoi pŵer i'r Cynulliad gyflwyno gweithdrefn achredu ar gyfer cyngorau lleol unigol neu ar gyfer grwpiau ohonynt (byddai'n ofynnol i gyngorau lleol fodloni safonau gofynnol penodol cyn ymgymryd â swyddogaethau ychwanegol). Hefyd, byddai'n rhoi pwerau iddo ddiwygio'r rhestr o swyddogaethau y dylid ymgynghori â chyngorau lleol yn eu cylch, ac yn ei gwneud yn ofynnol i brif awdurdodau fynd ati bob 4 blynedd i adolygu eu hardaloedd cymunedol a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ac i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol.

Byddai rhai goblygiadau ariannol yn deillio o'r Mesur hwn. Y mwyaf arwyddocaol fyddai'r angen i'r Cynulliad roi cymorth grant uniongyrchol i'r cyngorau. Byddai'n rhaid wrth gytundeb y cyngorau sir a'r cyngorau bwrdeistref sirol perthnasol, a chyllid oddi wrthynt, cyn i'r cyngorau lleol fedru ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau o ran darparu gwasanaethau. Wrth fynd ati fwyfwy i ddarparu gwasanaethau ar y lefel leol, dylai hynny olygu y bydd mwy o wasanaethau lleol ar gael, a bod eu hansawdd yn well.

### **Mesur Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)**

6. Byddai'r Mesur yn darparu ar gyfer un Ombwdsmon yng Nghymru, gan gyfuno'r 3 swydd bresennol (Comisiynydd Llywodraeth Leol, Comisiynydd y Gwasanaeth lechyd ac Omwdsmon Gweinyddiaeth Cymru). Byddai hyn yn golygu y byddai deiliad y swydd yn gallu ymchwilio i gwynion o gamweinyddu yn erbyn ystod eang o gyrrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y Cynulliad, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, Cyrff y Gwasanaeth lechyd ac Awdurdodau Lleol. Byddai gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr un awdurdod â'r Ombwdsmyn presennol i ymchwilio ac i lunio adroddiadau, a byddai hefyd yn cael mwy o bwerau er mwyn medru rhoi arweiniad ar arferion gweinyddol da.

Mae'r Cynulliad yn ariannu 3 swyddfa bresennol yr Ombwdsmyn eisoes, gan wneud hynny naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r Setliad Cyllid Llywodraeth Leol. Ni ddylai rhoi awdurdod i un Ombwdsmon gael unrhyw effaith ariannol ar y Cynulliad (er y byddai angen ad-drefnu peth ar linellau gwariant y gyllideb). Drwy ddiwygio fel hyn, gobeithir y gellir darparu gwasanaeth Ombwdsmon llawer mwy effeithiol i bobl Cymru, heb i hynny gostio mwy.

### **Mesur Llety i Dwrisiaid (Cofrestru) (Cymru)**

7. Drwy ddiwygio neu ddiddymu rhan o Adran 17 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969, neu'r cyfan ohoni, byddai'r Mesur yn creu pŵer a fyddai'n galluogi'r Cynulliad i sefydlu cynllun i gofrestru llety i dwristiaid yng Nghymru. Byddai hefyd yn cynnwys y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth sy'n nodi ar ba sail y dylid cofrestru llety. Byddai'r llety a gofrestrir o dan y Cynllun yn cael ei archwilio bob hyn a hyn. Byddai'r trefniadau cofrestru ac archwilio yn sicrhau

bod y safonau gofynnol yn cael eu bodloni a'u cynnal. Cyflwynodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth gynigion manwl y Mesur hwn gerbron y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar 25 Chwefror, a thrafodwyd y mater yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Mawrth.

Gellir mynd ati i baratoi cynllun sy'n ei ariannu'i hun, ond dichon yn byddai yna gostau cychwynnol wrth ei sefydlu. Llywodraeth y Cynulliad fydd yn gwneud y penderfyniadau manwl ar y materion hyn wrth fynd ati i lunio is-ddeddfwriaeth unwaith y bydd y ddeddfwriaeth sylfaenol yn ei lle.

### **Mesur Trafnidiaeth (Cymru)**

8. Byddai Mesur Trafnidiaeth (Cymru) yn rhoi cyfres gydlynol o bwerau yn ymwneud â thrafnidiaeth i'r Cynulliad am y tro cyntaf, a byddai'n caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru weithredu'i pholisiau ar drafnidiaeth integredig. Byddai'r Mesur yn cynnwys pwerau cryfach o ran cynllunio a gweithredu ym maes trafnidiaeth, a byddai'n ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar drafnidiaeth ac yn ddyletswydd ar yr awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau lleol neu i weithio gyda'i gilydd i baratoi cynlluniau rhanbarthol. Byddai hefyd yn rhoi'r pŵer iddo sefydlu un neu fwy o gyd-awdurdodau trafnidiaeth, a fyddai'n cyflawni swyddogaethau penodol llywodraeth leol o ran trafnidiaeth ar draws ardaloedd dau neu fwy o'r awdurdodau lleol. Byddai'r Mesur yn cryfhau pwerau'r Cynulliad mewn perthynas â'r rheilffyrdd, ac yn rhoi'r pŵer iddo roi cyfarwyddyd ac arweiniad i'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol. Byddai ganddo bwerau i dalu'r Awdurdod, a llunio cytundebau cyfrwymol ag ef, ynghyd â phŵer i benodi aelod o'r Awdurdod. Yn olaf, byddai pŵer cyffredinol yn y Mesur a fyddai'n caniatáu i'r Cynulliad wneud taliadau refeniw a chyfalaf i weithredwyr gwasanaethau trafnidiaeth.

Byddai ychydig o oblygiadau i'r awdurdodau lleol o ran cost pe bai'r pwerau cynllunio a ragwelir yn y Mesur yn cael eu mabwysiadu. Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i sefydlu cyd-awdurdod trafnidiaeth, byddai modd ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r costau drwy drosglwyddo'r staff presennol, ond byddai angen Tîm yn y Pencadlys, ac ychydig o staff ychwanegol er mwyn creu trefniadaeth effeithiol. Amcangyfrifir y byddai hyn yn costio hyd at £1m y flwyddyn (gan gynnwys gorbenion). Byddai cynnydd bach yng nghostau gweinyddol y Cynulliad o ganlyniad i'r cynigion sy'n ymwneud â'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol. Hefyd, byddai angen trosglwyddo adnoddau ar gyfer rhagleni (sy'n ymwneud â chymorthdaliau i'r cwmniau sy'n rhedeg y trenau), ond ni fyddai unrhyw oblygiadau o ran costau yn hynny o beth.

---

Sylwer:

Mae'r Cabinet yn ymwybodol hefyd o Fesur Aelod Preifat y Farwnes Finlay yn Nhŷ'r Arglwyddi yngylch ysmgyu mewn mannau cyhoeddus. Deilliodd y cynnig hwn o gynnig a gyflwynwyd gan rai o Aelodau Cynulliad y meinciau

cefn, ac a gafodd sêl bendith y Cynulliad ym mis Ionawr 2003. Mae Llywodraeth y Cynulliad, felly, yn cymeradwyo ysbryd Mesur y Farwnes Finlay, ac os na fydd, am unrhyw reswm, yn dod yn gyfraith, bydd y Cabinet am gynnal trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i weld a oes modd trefnu bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno Mesur ar gyfer Cymru'n unig ar ran y Cynulliad.